Cyngor i Benaethiaid ar ddefnyddio Technoleg y Rhyngrwyd

Dylai'r canllawiau hyn gael eu defnyddio mewn cydweithrediad â *DEFNYDDIO'R RHYNGRWYD – CYTUNDEB* Awdurdod Addysg Lleol Dinas a Sir Abertawe*, Medi 2003*.

1. Cyflwyniad

1.1 Dylai ysgolion fabwysiadu'r amddiffyniadau canlynol, a fydd yn galluogi plant a staff i weithio o fewn amgylchedd cymharol 'ddiogel'.

1.2 Os bydd yr ysgol yn eu cyflwyno nhw fel rhan o'r broses addysgol bydd yn datblygu diwylliant ar gyfer defnyddio'r Rhyngrwyd a fydd yn gwasanaethu plant a staff y tu hwnt i gyfyngiadau'r ysgol.

1.3 Dylai'r canllawiau canlynol ddarparu cynnwys digonol ar gyfer llunio eich polisi ysgol chi. Pan fydd gan ysgolion bolisïau yn gweithredu yn barod, gallant fod yn feincnod er mwyn sicrhau bod yr holl bwyntiau angenrheidiol yn cael eu cynnwys yn eich polisi.

2. Rheolau a Rheoliadau

2.1 Dylai pob ysgol feddu ar Bolisi Defnydd Derbyniol ar gyfer y Rhyngrwyd. Dylai'r holl Lywodraethwyr a'r staff fod yn gyfarwydd â'r polisi ac efallai yr hoffai'r ysgol rannu hyn gyda rhieni er mwyn eu sicrhau ac ystyried a hoffent weithredu hyn gartref.

2.2 Mae'r cyfrifoldeb am weithredu'r polisi hwn yn eiddo'r corff llywodraethu a'r pennaeth, nid y Cydlynydd TGCh na Phennaeth TGCh.

2.3 Dylai'r ysgol ystyried y defnydd o 'gytundeb' ar gyfer pob disgybl sy'n cael ei lofnodi gan rieni neu warcheidwaid. Mae'n amlygu'r materion a'r cyfrifoldebau a rennir.

2.4 Dylai'r Rheolau a'r Rheoliadau fod yn glir.

2.5 Efallai y byddai'n briodol i'r Polisi Defnydd Derbyniol fod yn hafan ar bob cyfrifiadur a rhaid i'r disgyblion glicio ar fotwm "derbyn" er mwyn cael mynediad i'r We.

3. Systemau

3.1 Dethol Cynnwys a Safleoedd. Dylai pob ysgol ddefnyddio meddalwedd dethol neu gontractio eraill i wneud hyn ar eu rhan. Gall y meddalwedd hwn ddethol safleoedd hysbys sy'n cynnwys deunyddiau anaddas a geiriau allweddol. Mae'r Awdurdod yn defnyddio Websense. Ond ni ddylid dibynnu ar feddalwedd dethol fel yr unig ateb.

3.2 Dylai ysgolion ddefnyddio system fonitro i wirio defnydd o'r Rhyngrwyd.

4. Dylunio a Threfnu Cyfleusterau

4. 1 Dylai cyfrifiaduron neu deledu sy'n gallu hygyrchu'r Rhyngrwyd gael eu gosod mewn ardaloedd agored neu brysur y gellir eu goruchwylio'n hawdd. Ni ddylid eu lleoli mewn ardaloedd caeedig neu guddiedig.

4.2 Lle bynnag y bo'n bosib, dylai ystafelloedd cyfrifiadurol gael eu dylunio fel bo'r sgriniau yn wynebu i mewn i ystafelloedd lle gellir eu gweld a'u goruchwylio'n rhwydd. Nid yw'r arfer o osod cyfrifiaduron mewn ynysoedd er mwyn gosod rhagor o gyfrifiaduron yn cael ei argymell. Os yw'n anochel, efallai bod gosod drychau'n strategol yn opsiwn rhatach ond efallai'n llai effeithiol.

5. Cyflwyno

5.1 Bydd yn rhaid paratoi'r disgyblion yn iawn cyn iddynt ddefnyddio'r Rhyngrwyd ac efallai mai'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy raglenni dysgu arferol yr ysgol. Dylai'r cyflwyno gynnwys datblygu sgiliau sylfaenol y Rhyngrwyd ynghyd â dealltwriaeth o brotocoliau, egwyddorion a pheryglon.

6. Goruchwyliaeth

6.1 Mae'n hanfodol bod disgyblion yn cael eu goruchwylio yn eu defnydd o'r Rhyngrwyd. Ni ellir pwysleisio hyn ddigon. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o ddiogelu plant a monitro eu hymddygiad. Ni ddylai unrhyw blentyn gael mynediad heb oruchwyliaeth briodol.

7. Atalfa

7.1 Rhaid i ddisgyblion a staff fod yn ymwybodol o ddifrifoldeb camddefnyddio'r Rhyngrwyd. Rhaid i staff fod yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'r peryglon go iawn a'r canlyniadau allai ddilyn. Bydd torri'r rheolau yn destun Gweithdrefnau Diogelu Plant.

7.2 Gan ddilyn arferion monitro a goruchwylio cywir, dylai Penaethiaid bwysleisio'r sicrwydd o oruchwylio a chael eich dal. Mae hwn yn arf ataliol.

7.3 Dylai'r Pennaeth hefyd rybuddio disgyblion, y bydd rhywun sy'n camddefnyddio'r Rhyngrwyd yn cael eu cosbi'n llym fel rhan o Bolisi Rhyngrwyd yr ysgol. Rhaid ystyried y gallu i gyflawni'r sancsiynau angenrheidiol er mwyn mynd i'r afael â chamddefnyddio'r Rhyngrwyd.

8. Post Electronig

8. 1 Ni ddylai athrawon adael i ddisgyblion gysylltu ag eraill ar yr e-bost heb sicrhau yn gyntaf eu bod yn gwybod pwy maent yn cysylltu â nhw. Nid y person yr honnir ei fod yw'r bobl sy'n derbyn yr e-bost bob amser. Yn y gorffennol, mae Padoffilyddion wedi cysylltu â phlant yn y ffordd hon. Dylid annog plant i fabwysiadu'r un agwedd y maent yn cael eu dysgu sef 'peidiwch â siarad â phobl ddieithr'.

9. Gwefannau Ysgolion

9. 1 Os byddwch yn cyhoeddi gwaith y plant ar wefan yr ysgol neu unrhyw wefan arall, peidiwch â dangos enw a llun y plentyn gyda'i gilydd. Os bydd llun o'r plentyn yn cael ei ddangos, peidiwch â nodi mwy na llythrennau blaen y plentyn. Peidiwch ag argraffu enw llawn y plentyn, na'i nodi ef/hi yn y ffotograff. Mae'n hanfodol nad yw cyfeiriadau e-bost y disgyblion yn cael eu cyhoeddi ar Wefan mynediad cyhoeddus.

10. Gweithdrefnau Cofnodi

10.1 Gall hygyrchu deunyddiau annymunol ddigwydd yn hawdd ar ddamwain. Rhaid llunio trefniadau cofnodi clir ac annog y disgyblion i hysbysu eu hathro/ athrawes. Mae hwn yn rhan o ddiwylliant y dylai ysgolion ymgeisio ei gyflawni.

10.2 Dylai athrawon ddweud wrth y Pennaeth am unrhyw ddigwyddiadau o'r fath.

10.3 Bydd yn rhaid i Benaethiaid benderfynu a oes angen dweud wrth yr AALl am unrhyw ddigwyddiadau.

10.4 Bydd yn rhaid i'r AALl benderfynu a oes angen trosglwyddo'r wybodaeth i'r heddlu.

11. Goblygiadau Cyfreithiol

11.1 Mae'r gyfraith yn aneglur o ran cyfrifoldeb caniatáu defnyddio eiddo ysgolion er mwyn hygyrchu deunyddiau anghyfreithlon neu ddefnydd anghyfreithlon arall. Bydd yn rhaid i Lywodraethwyr a Phenaethiaid ystyried y cyfrifoldebau cyfreithiol o ran hyn.

Defnydd Mwy Diogel o'r Rhyngrwyd

Cyfnod Allweddol 1 a 2

1) Ni ddylai'r disgyblion gael mynediad i gyfrineiriau'r Rhyngrwyd. Os bydd y disgyblion yn darganfod beth yw'r cyfrineiriau yna dylai'r defnydd o'r Rhyngrwyd gael ei atal nes i'r cyfrinair gael ei newid.

2) Rhaid goruchwylio'r disgyblion bob amser wrth weithio ar y Rhyngrwyd.

3) Rhaid gosod cyfrifiaduron gyda mynediad i'r Rhyngrwyd mewn ardal sy'n cael ei monitro dda ac wedi'u gosod fel bo'r sgriniau'n weladwy.

4) Rhaid gwirio pob gwefan Fyd-Eang gan yr athro/ athrawes o ran defnydd priodol cyn i'r disgyblion eu defnyddio.

5) Dylai safleoedd addas gael eu dalen-nodi.

6) Dylai pob defnydd o'r Rhyngrwyd fod drwy dasgau ffocysedig ac uniongyrchol.

7) Dylai'r mynediad i'r Rhyngrwyd gael ei gau pan fydd y wers yn gorffen.

8) Rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio peiriannau chwilio'r Rhyngrwyd.

9) Rhaid i'r athrawon archwilio'r un Peiriannau Chwilio a Pharamedrau ymchwil cyn i'r disgyblion eu defnyddio.

10) Mae goruchwylio agos yn hanfodol os bydd Peiriannau Chwilio yn cael eu defnyddio.

11) Mae Pyrth (safleoedd sy'n darparu cysylltiadau â safleoedd eraill) fel NGfL Cymru yn well na Pheiriannau Chwilio.

12) Dylai disgyblion fod yn ymwybodol bod cofnod o'u defnydd o'r Rhyngrwyd yn cael ei gadw ar y cyfrifiadur a Gweinydd y Rhyngrwyd.

13) Os bydd ysgolion yn creu gwefannau, ni ddylid cyhoeddi lluniau o'r disgyblion gyda'u henwau neu fel arall.

14) Dylai athrawon a disgyblion fod yn ymwybodol o beryglon posib e-bost, yn enwedig o ran cyfathrebu â phobl ddieithr.

15) Dylai defnydd cychwynnol o'r cyfleuster e-bost gael ei gyfyngu i ddefnydd mewnol yn unig h.y disgyblion i gyfathrebu gyda'i gilydd.

16) Os bydd cyswllt allanol yn cael ei wneud, dylai'r cyswllt e-bost cychwynnol gael ei wneud gan yr athro/ athrawes.

17) Rhaid i bob neges e-bost a dderbynnir gael ei gwirio gan yr athro/ athrawes yn gyntaf.

18) Dylai negeseuon e-bost na ofynnwyd amdanynt, yn enwedig y rheiny gydag ymgysylltiadau gael eu trin yn amheus.

19) Rhaid i athrawon fod yn ymwybodol o hawlfraint pob cyfrwng.

20) Ni ddylai disgyblion roi manylion personol e.e. rhif ffôn cartref neu gyfeiriadau i unrhyw un dros y Rhyngrwyd.

Defnydd Mwy Diogel o'r Rhyngrwyd

Cyfnod Allweddol 3 a 4

1) Mae defnyddio TGCh yn rhan hanfodol o'r rhan fwyaf o raglenni dysgu. Serch hynny, rhaid i ddisgyblion gyfyngu eu hunain i ddefnydd egwyddorol a phriodol.

2) Fel gyda Chyfnodau Allweddol cynharach, dylai disgyblion sy'n defnyddio'r Rhyngrwyd gael eu goruchwylio a dylid monitro'r gwefannau yr edrychir arnynt.

3) Ar lefelau uwch, bydd y disgyblion yn ddefnyddwyr mwy annibynnol o TGCh, gan gynnwys eu defnydd o'r Rhyngrwyd. Dylid annog disgyblion i drafod telerau a ffiniau i'w defnyddio wrth chwilio am wybodaeth, yn hytrach na chael eu gorchymyn.

4) Mae'n well bod disgyblion yn defnyddio pyrth y Rhyngrwyd i ddod o hyd i wybodaeth yn hytrach na pheiriannau chwilio. Serch hynny, derbynnir bod yn rhaid defnyddio peiriannau chwilio pan na fydd ffordd arall ar gael er mwyn dod o hyd i wybodaeth.

5) Lle bynnag y bo'n bosib, dylai'r athrawon wirio canlyniadau peiriant chwilio gyda'r ffiniau y disgwylir i'r ddisgyblion eu defnyddio i leihau'r perygl o safleoedd amhriodol yn cael eu dychwelyd.

6) Rhaid i'r athrawon sicrhau, gyhyd ag yw'n ymarferol bosib, nad yw deddfau hawlfraint yn cael eu torri pan fydd disgyblion yn tynnu a chadw cynnwys o wefannau'r WWW.

7) Ni ddylai disgyblion geisio lawrlwytho rhaglenni na ffeiliau gweithredadwy o'r Rhyngrwyd heb ganiatâd athro/athrawes. Hefyd, ni ddylai disgyblion geisio uwchlwytho ffeiliau neu ddeunyddiau eraill heb ganiatâd.

8) Wrth ddefnyddio'r e-bost, ni ddylai'r disgyblion ddefnyddio iaith anweddus nac aflednais na defnyddio termau y gellir eu hystyried yn sarhaus neu'n amhriodol. Ni ddylai disgyblion esgus bod yn ddefnyddiwr arall, nac e-bostio'n ddienw.

9) Nid yw defnydd achlysurol o'r Rhyngrwyd (e.e. syrffio) yn dderbyniol. Dylai defnydd disgyblion fod ar gyfer ymchwil yn seiliedig ar y maes cwricwlwm neu bwnc sy'n cael ei astudio. Mae hwn hefyd yn cynnwys defnyddio'r Rhyngrwyd at ddibenion masnachol neu elw.

10) Efallai bydd disgyblion Cyfnod Allweddol 3 a 4 eisiau cyfrifon e-bost personol. Dylai hyn fod yn ôl disgresiwn yr athro/ athrawes a'u rhoi i'r disgyblion y gellir ymddiried ynddynt. Dylai disgyblion fod yn ymwybodol bod eu negeseuon e-bost yn cael eu gwirio.

11) Ni ddylai disgyblion ddatgelu unrhyw fanylion personol, fel eu cyfeiriad cartref neu rif ffôn ar y Rhyngrwyd.

12) Rhaid i ddisgyblion sicrhau bod unrhyw wefan sy'n cynnwys deunyddiau amhriodol yn dod i sylw'r athro/ athrawes oruchwylio.

13) Dylai'r disgyblion fod yn ymwybodol efallai nad yw'r deunyddiau maent yn eu darllen ar-lein yn gywir.

14) Argymhellir bod disgyblion yn gwacáu’r cofnod o safleoedd yr ymwelwyd â hwy a gwacáu’r storfa pan fyddant yn gorffen ar y Rhyngrwyd.

Cyfeiriadau

Cydnabyddiaeth i Gyngor Bwrdeistref Castell-nedd Port Talbot am lunio'r ddogfen hon.

Cyswllt da yw Cyngor Sir Northampton sy'n darparu patrymlun ac awgrymiadau ar gyfer llunio eich polisi defnydd derbyniol chi - http://www.northants-ecl.gov.uk/apps/ICT/dia/hme.asp

Mae canllawiau'r Llywodraeth ar ddefnydd diogel gyda disgyblion yn darparu nifer o ddogfennau y gellir eu cyrchu o - http://safety.ngfl.gov.uk/schools/

Dwy enghraifft o bolisïau ysgol, o wefan NGfL Cymru, yw Ysgol Trinity Fields http://www.ngfl-cymru.org.uk/internet_and_it.pdf

ac Ysgol Iau Llangewydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr http://www.ngfl-cymru.org.uk/internet_policy.pdf

Mae gan BECT ganllawiau ar http://www.ictadvice.org.uk/index.php?section=ap&cat=004002&rid=463